

CBAC Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd Lefel 2



Yn gwyno

Mae'r cwrs hwn yn ddelfrydol ar gyfer unrhyw un sy'n gweithio, neu'n bwriadu gweithio yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol a all fynd i'r coleg un diwrnod yr wythnos i astudio. Mae'n gymhwyster newydd sy'n ymdrin â'r cysyniadau allweddol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan adlewyrchu'r FFRAMWAITH SEFYDLU CYMRU GYFAN AR GYFER IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL newydd, sydd erbyn hyn yn sail i lawer o'r cymwysterau newydd yn y sector hwn.

Mae'r cwrs hwn ar gael fel rhan o Gyfrif Dysgu Personol (PLA). Mae PLA yn fenter gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnig cyfle i bobl gael mynediad at gyrsiau rhan-amser, rhad ac am ddim sydd â ffyrdd hyblyg a chyfleus o ddysgu sy'n addas i'w ffordd o fyw presennol.

Mae'r cwrs hwn ar gyfer...

...ydych yn 19+ oed, ac yn byw yng Nghymru, yn gyflogedig, ac yn ennill llai na £32,371 y flwyddyn

...ydych yn weithiwr gofal cartref a heb gofrestru eto gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac angen

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

gwneud hynny

...ydych yn weithiwr gofal i oedolion a heb gofrestru eto gyda Gofal Cymdeithasol Cymru ac angen gwneud hynny

Cynnwys y cwrs

Mae'r cwrs yn ymdrin ag amrywiaeth o wybodaeth a dealltwriaeth am iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys:

Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol (oedolion)
Iechyd a lles (oedolion)
Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol
Diogelu unigolion
Iechyd a diogelwch mewn iechyd a gofal cymdeithasol

Cewch eich asesu trwy gymysgedd o astudiaethau achos a chwestiynau amlddewis a osodir yn allanol, ac ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus fe allech symud ymlaen i gymhwyster egwyddorion a chyd-destunau Lefel 2 neu 3 neu gymhwyster ymarfer, neu ddod o hyd i swydd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Gofynion Mynediad

Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol ar gyfer y cwrs hwn, dim ond dyhead i lwyddo yn y diwydiant gofal.

Gwybodaeth Ychwanegol

Nid yw lleoliad gwaith yn hanfodol i'r cwrs yma. Ond byddai'n fanteisiol pe bai gennych un ai leoliad fel gwirfoddolwr neu brofiad blaenorol o'r sector gofal.